



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Carwyn Jones AC
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr, Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2/12/2013

Annwyl Brif Weinidog,

Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ail ddrafft safonau Llywodraeth Cymru

Diolch am y cyfle i ymateb i ail ddrafft safonau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg. Sylweddolaf maint cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd rhagddi gyda'r gwaith o'u drafftio. Credaf y gall y pum dosbarth o safonau a ddiffinnir o fewn Mesur y Gymraeg (y Mesur) esgor ar fuddiannau pwysig i ddefnyddwyr. Rwy'n cydnabod y gall ceisio cynnwys ymrwymadau clir mewn rheoliadau gyflwyno heriau i'r Llywodraeth wrth iddi geisio sefydlu cysondeb yn yr hyn mae'r gyfraith am ei gymell neu ei wahardd mewn cysylltiad â defnyddio'r Gymraeg. Rhoddwyd sylw i'r ymateb ddarparwyd gennyf i'r safonau ar eu ffurf drafft cyntaf pan gyflwynais bapur i chi nôl ym mis Mehefin, mae fy sylwadau ar yr ail ddrafft fel a ganlyn:-

Y cynnig rhagweithiol

Mae'r ail ddrafft yn mynd i'r afael â chynnig gwasanaethau mewn modd rhagweithiol drwy osod disgwyliad ar berson i hyrwyddo bodolaeth gwasanaeth, nid darparu ar gais yn unig. Mae hyn i'w groesawu.

Byddai'r safonau ar eu hennill o'i gwneud yn glir mai gyda'r darparwr mae'r cyfrifoldeb dros gynnig dewis iaith bob tro.

Mewn amgylchiadau lle nad oes modd cyflenwi gwasanaethau Cymraeg yn syth ni ddylid dibynnu ar wasanaeth cyfieithu ar y pryd i ddiwallu pob angen. Awgrymir ddrafftio safon(au) ychwanegol. e.e. amgylchiadau lle bo unigolyn yn fregus neu mewn gwendid ac na fyddai cyfieithu'n gyfrwng priodol ar gyfer cyfarfod personol. Byddai cyfeirio at drafodaethau'n codi mewn cysylltiad â'r Bil Gofal Cymdeithasol a

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Llesiant yn ddefnyddiol yn y cyswllt hwn yn ogystal â Mwy na Geiriau lle gwneir ymrwymadau polisi ynglŷn ag *angen* ieithyddol, nid *dewis*.

Dylai'r safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn gyson â'r cyfeiriad polisi ehangach ar gyfer diwallu angen ieithyddol wrth dderbyn gwasanaethau cymdeithasol ac yn anad dim dylai'r safonau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n ymwneud â chyfarfodydd personol ystyried llesiant unigolion. [gweler sylwadau manwl yn atodiad 2]

Cyrhaeddiad ymrwymadau

Cafodd yr ymrwymadau isel, a di angen, a gynhwyswyd yn y safonau drafft cyntaf eu dileu. Ymddengys nad yw rhai o'r safonau uchel a chanolraddol eu cyrhaeddiad wedi goroesi i'r ail ddrafft. Dylai'r ddewislen o safonau adlewyrchu holl rychwant y cynlluniau iaith maent i'w disodli oherwydd gallai gostyngiad mewn ymrwymadau arwain at leihad mewn buddiant i ddefnyddwyr y Gymraeg wrth symud o gynlluniau iaith i safonau.

Dylai cynnwys y safonau sydd i'w cyhoeddi fod yn gyson ag amrediad yr ymrwymadau sydd yn y cynlluniau iaith cyfredol a'u cywair yn briodol i'r holl sefydliadau yr arfaethwyd y safonau ar eu cyfer.

Safonau Gweithredu fel modd o ategu cyflenwi gwasanaethau

Bydd llwyddiant safonau cyflenwi gwasanaethau yn dra dibynnol ar y safonau gweithredu. Fel ag y maent, mae'r safonau gweithredu'n tynnu grym oddi wrth y safonau cyflenwi gwasanaeth a hynny'n rhannol gan fod rhai safonau craidd o ddrafft 1 yn absennol bellach e.e. nid oes gwerth yn cael ei osod ar y Gymraeg fel sgil hanfodol na dymunol mewn cysylltiad â recriwtio a dethol; nid oes dyletswydd ar berson nawr, nac yn y dyfodol, i sicrhau fod ganddynt ddigon o staff a chanddynt y sgiliau priodol er mwyn cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r sefydliadau dan sylw wedi arfer gweithredu yn unol â gofynion y canllawiau statudol adran 9, Deddf yr Iaith Gymraeg.¹ Nid oes dim i rwystro Llywodraeth Cymru rhag ychwanegu safonau gweithredu fel nodir yn yr enghreifftiau uchod at yr ail ddrafft yn syth.

Gan mai'r Canllawiau ar gyfer Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith Gymraeg yw'r brif ddogfen statudol ar gynnwys y cynlluniau iaith, dylai'r safonau gyfateb i fesurau gaiff eu cynnwys yn y canllawiau. Os nad ydynt, mae risg na fydd y safonau'n cyflawni pwrpas y Mesur a'u bod yn agored i adolygiad barnwrol. [gweler pwyntiau cyfreithiol atodiad 1].

¹ Pasiwyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Safonau Gweithredu – defnyddio'r Gymraeg *wrth* y gwaith

Mae gweithio'n Gymraeg yn arfer dyddiol mewn rhai o'r sefydliadau yr arfaethwyd y safonau hyn ar eu cyfer. Nid yw'r safonau gweithredu'n cymell sefydliad i ddatblygu cyfleoedd i'r cyflogai i ddefnyddio'r Gymraeg *wrth* y gwaith. Roedd disgwyl i safonau gweithredu wneud hynny a thrwy hynny gynyddu defnyddio'r Gymraeg. e.e. Nid yw'n amlwg pam nas gellir cynnwys safon yn gofyn i'r personau dan sylw baratoi polisi ar weinyddu mewnol yn Gymraeg.

Dylid cynnwys dewislen o safonau yn ymwneud â defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gweithle sy'n cwmpasu'r holl gyd destunau ieithyddol sydd i'w cael o fewn y 26 sefydliad dan sylw.

Safonau hybu

Gallasai'r safonau hybu wneud mwy i annog a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Yn sgil derbyn canlyniadau'r cyfrifiad 2011 ac o fod wedi derbyn adborth drwy gyfrwng cynnal y Gynhadledd Fawr bydd disgwyliadau uchel yng nghyswllt y safonau hybu.

Dylid pennu geiriad cadarnach i'r safonau hybu a'u cyplysu mewn modd ymarferol gyda chynlluniau strategol a chorfforaethol eraill y sefydliadau.

Safonau llunio polisi

Awgrymir ychwanegu safon yn ymwneud â chytundebau trydydd parti at y safonau llunio polisi. Yn yr un modd mae swyddogaethau rheoleiddiol yn absennol.

Safonau cadw cofnodion

Gosododd Llywodraeth Cymru gysail da mewn cysylltiad â chadw cofnodion pan basiwyd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Ceir ynddynt ddarpariaethau yn ymwneud â chadw cofnodion cydymffurfio mewn cysylltiad ag effaith polisiâu²; hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth³. Bydd cadw data am nifer y swyddi a ddynodwyd yn rhai lle fo'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol ac a lenwyd gan staff a chanddynt y sgiliau gofynnol yn sylfaenol bwysig. Ceir nodweddion y gellid eu hefelychu hefyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 e.e. yr angen i gasglu gwybodaeth er mwyn caniatáu i sefydliad asesu a yw wedi cyrraedd yr amcanion a osodwyd arno ar gyfer y flwyddyn honno.

² Gweler Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, 8._(1) (c) a (ch).

³ Gweler Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 [gweler 9._(1) (c) (i) - (vii)].



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Nid yw'r safonau cadw cofnodion sy'n ymwneud â derbyn cwynion am dor safon yn gyson â diffiniad Mesur y Gymraeg. Mae hyn yn broblematic.

Dylai'r safonau cadw cofnodion gynnig rhywfaint mwy o arweiniad ar y math o gofnodion y byddai *disgwyl i sefydliad* eu cadw mewn cysylltiad â safonau eraill.

Ynghlwm wrth y llythyr hwn ceir atodiad o gyngor ar bwyntiau cyfreithiol. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi sylw iddynt yn ogystal â chynnwys y llythyr hwn. Mae atodiad 2 yn darparu sylwadau manwl ar y safonau.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

- cc. [Swyddog 1 Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth] -
[Teitl swydd Swyddog 1 Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]
[Swyddog 2 Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth] -
[Teitl swydd Swyddog 2 Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]
[Swyddog 3 Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth] -
[Teitl swydd Swyddog 3 Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]



Atodiad 1

Cyngor i Weinidogion Cymru ar bwyntiau o gyfraith mewn cysylltiad ag ail ddrafft safonau'r Gymraeg

1. Y diffiniad o safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae pwynt 3 yn defnyddio'r gair '**a**' yn lle'r gair '**neu**' sydd yn y Mesur.

"Bwriad safonau cyflenwi gwasanaethau yw hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, **a** gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg."

Mae defnyddio'r gair '**a**' yma yn golygu bod rhaid i'r safonau wneud y ddau beth yn hytrach na hybu/hwyluso **neu** weithio tuag at sicrhau ... llai ffafriol. Gall hyn hefyd greu ansicrwydd neu ddadl os dehonglir bod safon ddim ond yn hybu neu ddim ond yn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Mae'n bwysig bod y gair 'neu**' yn cael ei ddefnyddio i beidio â chyfyngu ar ystyr y safonau.**

2. Ystyr 'llai ffafriol'

Weithiau defnyddir llai ffafriol mewn modd eang a thro arall mae safonau'n benodol iawn yn y dehongliad a roddir o'r term.

Mae'r safonau'n defnyddio'r ymadrodd 'llai ffafriol':

- ym mhob safon yn y Safonau Llunio Polisi
- 13 tro yn y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- 4 tro yn y Safonau Gweithredu
- dim o gwbl yn y Safonau Hybu a'r Safonau Cadw Cofnodion

Wrth ddiffinio ystyr pob categori o safon, mae'r Mesur yn:

- cyfeirio yn benodol yn ystyr safonau llunio polisi at 'beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- cyfeirio yn benodol yn ystyr safonau cyflenwi gwasanaethau at 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg'
- yn dawel ar yr ymadrodd 'llai ffafriol' yn y diffiniadau eraill o'r categorïau o safonau.

Byddai'n ddefnyddiol gwybod pam y bu i'r Llywodraeth ychwanegu cyfeiriad at 'llai ffafriol' i'r safonau gweithredu a hybu?

Mae'r cyfeiriadau at 'llai ffafriol' yn y Safonau Llundio Polisi yn gyson yn y ffordd y maent yn cael eu defnyddio ac yn gyson â'r diffiniad yn y Mesur.

Mae'r cyfeiriadau at 'llai ffafriol' yn y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn anghyson ac wedi eu cyfyngu at rai materion yn unig. e.e.:

- Yn y safonau ar gyhoeddiadau mae safon 56 yn datgan "Rhaid peidio â thrin y cyhoeddiad Cymraeg yn llai ffafriol na'r un Saesneg, o ran ffurf, ffont, maint, lliw, pris nac amseriad ei gyhoeddi."
- Yn y safonau ar ffurflenni mae safon 58 yn datgan "Rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran amseriad ei chyhoeddi; y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen; amser ymateb os oes angen." Nid yw'r safon yma yn dweud unrhyw beth ynglŷn â ffurf, ffont, maint, lliw ayb.
- Nid yw'r safonau ar wefannau a gwasanaethau ar-lein (60-62) yn dweud unrhyw beth am 'llai ffafriol' ac yn gwbl dawel ar ffurf, ffont, maint, lliw ac amseriad fersiynau Gymraeg.

Mae'r ffaith bod rhai safonau mor benodol am yr hyn y mae'n rhaid ei drin yn llai ffafriol yn cyfyngu'r ddyletswydd i'r materion penodol yna yn unig. Mae hyn yn creu anghysondeb a gwendidau amlwg yn y safonau, a fydd yn ei gwneud yn anodd iawn i fonitro.

Dylai'r safonau cyflenwi gwasanaethau gynnwys un safon gyffredinol sydd yn ddilys i bob math o weithgaredd ac sy'n creu'r ddyletswydd, wrth gyflenwi gweithgaredd yn y Gymraeg, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg *mewn unrhyw ffordd*.

Mae diffiniad y Mesur o Safonau Gweithredu yn cyfeirio at 'hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg' yn unig ac nid at drin yn llai ffafriol. Er hyn, mae hawl i unrhyw safonau gyfeirio at 'beidio â thrin yn llai ffafriol' (yn ein barn ni), gan fod Adran 1(3)(e) y Mesur yn cyfeirio at

"creu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, neu â phheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mewn cysylltiad—



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

(i) â chyflenwi gwasanaethau,

(ii) â llunio polisi, ac

(iii) ag arfer swyddogaethau neu gynnal busnesau neu ymgymeriadau eraill;"

Mae peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg hefyd yn un o'r teclynnau y gellir ei ddefnyddio i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Er hyn, mae'r defnydd o'r ymadrodd 'llai ffafriol' eto yn anghyson yn y safonau gweithredu:

- mae safon 1 yn rhestru dogfennau penodol yn unig gan ddweud 'ni chaiff sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

- mae safon 25 y cyfeirio at 'llai ffafriol' o ran y ffont a maint y ffont yn unig. Nid yw'n glir pam?

Nid yw'n amlwg pam fod hyn yn berthnasol i rai safonau ac nid i eraill - e.e. pam mae'r dyletswydd 'llai ffafriol' yn berthnasol i hysbysiad recriwtio ac nid i fewnrwyd?

Os am ddefnyddio'r egwyddor llai ffafriol yn y dosbarth hwn o safonau dylid defnyddio'r un math o safon gyffredinol i ymdrin â'r ddyletswydd 'llai ffafriol' ar gyfer y safonau gweithredu, ag yr ydym yn ei gynghori uchod ar gyfer y safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae geirfa nifer o'r safonau yn llac iawn, yn arbennig lle rhestrir categorïau neu fathau o bethau. Mewn sawl lle, nid yw'n glir os yw'r rhestr yn enghreifftiol ynteu'n gyflawn – e.e. y Sylwadau o dan deitl 10 – Cyhoeddiadau. Mae'r sylwadau yn rhestru ambell gyhoeddiad ac mae safon 54 yn rhestru'r prif gategorïau. Mae sawl math o gyhoeddiad ar goll – beth am bolisiau, cynlluniau, strategaethau ayb. A yw'r rwymedigaeth yn llai ar gyfer polisiau nag ar gyfer tystysgrifau?

Byddai'n well pe bai'r safonau yn osgoi neu'n esbonio termau eang ac yn cadarnhau a yw'r rhestr yn gynhwysfawr ai peidio.

3. Sylwadau cyffredinol sy'n rhagflaenu dewislenni safonau

Mae'r eirfa gyffredinol yn y sylwadau cyn pob adran o safonau penodol yn cyfyngu ar effaith y safonau yn sylweddol. e.e. mae'r sylwadau ar safon 8 yn sôn am gyhoeddusrwydd a hysbysebu 'sydd yn rhannu gwybodaeth er mwyn ennyn diddordeb y cyhoedd'. Nid yw'r ymadrodd yma yn egluro a yw'r safon yn berthnasol i ymgyrchoedd marchnata ar gyfer busnesau hefyd?



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Os bydd y safonau yn ymwneud â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau o fewn ystyr y Mesur, mae'n rhaid iddynt gwmpasu gwasanaethau i berson arall (sef person cyfreithiol ac nid unigolion/y cyhoedd yn unig).

Bydd yn bwysig golygu'r sylwadau rhagymadroddi cyn pob adran cyn eu cyhoeddi.

4. Gweithgareddau Atodlen 9 a gweithgareddau ychwanegol nad ydynt yn gynwysedig yn yr atodlen

Nid yw'r Mesur yn creu nac yn nodi unrhyw wahaniaeth rhwng y mathau o safonau (Atodlen 9 neu beidio) ar ôl iddynt gael eu gwneud yn benodol gymwys i P. Hynny yw, nid oes dyletswydd i gadw cofnodion gwell ar gyfer safonau yn ymwneud ag Atodlen 9 o'u cymharu gyda gweithgareddau nad ydynt yn yr atodlen. Ar ôl i safonau gael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys, dylid trin y safonau yn gyfartal ac mae'r ddyletswydd i gydymffurfio yr un mor berthnasol i bob un.

O ganlyniad mae gofyn i'r safonau cadw cofnodion drafft 2 osod disgwyliad ar P i gasglu gwybodaeth ar yr holl weithgareddau, nid cynnwys atodlen 9 yn unig.

5. Amrywio termau Mesur y Gymraeg

Rhoddir cyngor cyffredinol fod y safonau drafft yn cadw at eirfa'r Mesur lle bynnag y bo'n bosib er mwyn osgoi cyfyngu ar ystyr llawn y Mesur.

(i) Y cyhoedd

Er enghraifft, mae safon 42 yn cyfeirio at 'y cyhoedd' felly hefyd ar gyfer safon 8 (cyhoeddusrwydd a hysbysebu). Gellid dadlau bod defnyddio'r ymadrodd 'y cyhoedd' yn cyfyngu'r safon i aelodau unigol o'r cyhoedd h.y. personau preifat y gymuned ac nid rhywun sy'n cynrychioli cwmni neu fusnes.

Trwy gadw at y gair a ddefnyddir yn y Mesur, sef 'person', gellir osgoi unrhyw ddadl o'r fath. Felly yn safon 42 gellid cyfeirio at 'unrhyw berson a fydd yn cyfrannu i'r cyfarfod'.

(ii) Unigolyn

Mae'r defnydd o'r gair 'unigolyn' yn golygu person naturiol yn unig, ac yn debyg o eithrio cwmniöedd, cyrff cyhoeddus eraill ayb. Mae'n bosib i gyfarfodydd cyhoeddus gael eu cynnal ar gyfer busnesau ac nid ar gyfer 'y cyhoedd' cyffredinol yn unig.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Trwy ddefnyddio geiriau fel 'unigolyn' a 'y cyhoedd', mae natur y cyfarfodydd cyhoeddus wedi ei gyfyngu. Dylid cadw at eirfa'r Mesur yn y ddogfen safonau.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

(iii) Sefydliad

Mae'r safonau drafft yn cyfeirio at 'sefydliad', ac nid yw'r ymadrodd yma wedi cael ei ddiffinio. Mae'r Mesur yn cyfeirio at 'berson' ac nid sefydliad ac felly mae'n bosib y gall defnyddio'r gair yma greu ansicrwydd neu ddadl fod y safonau yn berthnasol i 'sefydliadau' yn unig.

Mae'r OED yn diffinio 'organization' fel "an organized group of people with a particular purpose, such as a business or government department". Gall defnyddio'r gair sefydliad felly gyfyngu'r safonau i 'grwpiau o bersonau' ac eithrio'r hwn sy'n cyflenwi gwasanaethau fel, neu trwy, unigolion, unig berchnogion, partneriaethau o ddau ayb. Er bod bob aelod o'r grŵp o bersonau sy'n berthnasol i'r safonau drafft yma yn sefydliadau (h.y. yr awdurdodau lleol ayb.) mae'n bosib bod rhai o'u gweithgareddau yn cael eu cyflenwi ar eu rhan gan drydydd parti nad ydynt yn 'sefydliadau' o fewn y diffiniad cyffredinol. Mae'n bwysig hefyd bod unrhyw ddiffiniadau a osodir yn y ddogfen yma yn gyson ar gyfer grwpiau eraill o bersonau. Ni fydd yn addas diffinio termau cyffredinol yn wahanol ar gyfer categorïau gwahanol o bersonau.

Rhoddir cyngor y dylai'r safonau gyfeirio at 'berson' yn lle sefydliad, i sicrhau cysondeb â'r Mesur, neu, os am ddefnyddio'r gair 'sefydliad', bod y term yma yn cael ei ddiffinio i gynnwys pob categori o berson.

(iv) Person

Mae'r cyfeiriad at y gair 'person' yn y Mesur yn gyfeiriad at 'berson cyfreithiol', sef unrhyw endid y gwêl y gyfraith y gall fod ganddo hawliau a dyletswyddau. Mae person cyfreithiol yn cynnwys unigolyn, cwmni, LLP, corff cyhoeddus ayb, ond heb gynnwys, er enghraifft, partneriaeth gyfyngedig. Lle mae hawliau neu ddyletswyddau o fewn deddfwriaeth yn cael eu cyfyngu i unigolion yn unig, bydd yr eirfa yn cyfeirio'n benodol at 'unigolyn' neu 'berson naturiol'. Mae hyn yn amlwg, er enghraifft, yn adran 111(1) lle mai unigolyn yn unig (ac nid 'person') all wneud cais i'r Comisiynydd.

Mae'n bwysig felly bod unrhyw gyfeiriad at dderbynwyr y gwasanaethau yn ddigon eang i gynnwys pob person cyfreithiol (h.y. unigolion, cwmnïoedd, cyrff cyhoeddus ayb). Mae cyfeiriadau at y 'person' sydd yn cyflenwi'r gwasanaethau hefyd yn gorfod bod yn ddigon eang i gynnwys unigolion, cwmnïoedd ayb. Os na fydd, ni fydd y safonau yn cyflawni ystyr y Mesur. Os oes term yn cael ei ddefnyddio sydd yn cyfyngu ar y math o berson, gall y safonau gael eu herio gan unrhyw berson sydd wedi ei eithrio.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rhoddir cyngor bod y safonau drafft yn defnyddio dim ond y gair 'person' lle bynnag y bo'n bosib. Byddem hefyd yn cynghori bod y safonau a bennir, neu'r cod ymarfer cysylltiedig, yn cynnwys eglurhad o ystyr y gair 'person' (h.y. person cyfreithiol) er mwyn sicrhau bod personau sydd yn gorfod cydymffurfio â'r safonau yn ymwybodol o'r ystyr llawn.

6. Adnabod ymrwymiad safon

Ymddengys ei bod yn anodd olrhain yn glir ble mae pob ymrwymiad yn gorwedd gan fod gwrthdaro rhwng dewislenni safonau e.e. mae 'datganiad i'r wasg' yn cael ei gynnwys o dan cyhoeddiadau tra ei fod hefyd yn weithgaredd ac yn safon ynddo'i hun. Mae sawl un o'r penawdau a restrir o dan safon 54 hefyd yn cael eu rhestru mewn safonau eraill. e.e. 48, 52, 72, 98. Bydd hyn yn arwain at wrthdaro a chreu problem wrth geisio gosod y safonau hyn ar waith yn ymarferol ac wrth i'r Comisiynydd weithredu ei swyddogaethau.

Er mwyn sicrhau eglurder ymrwymadau rhwng un safon a safon arall dylid lleihau'r nifer o weithiau y mae'r safonau yn gorgyffwrdd, gan hepgor neu gyfuno unrhyw safonau sy'n ailadrodd ei gilydd.

Gellid cynnwys brawddeg gyffredinol yng nghyflwyniad y safonau i egluro sut i ddehongli'r ymrwymadau rhwng un safon a safon arall pan fo gorgyffwrdd o ryw fath ar draws amrediad gweithgareddau. Dylai'r esboniad yma roi cyfarwyddyd i bersonau gydymffurfio â'r mwyaf rhwymedigaethus o'r 2 ddyletswydd.

Os bydd un math o gyhoeddiad yn cael ei drin yn gwbl wahanol, gyda safon ar wahân ar ei gyfer, dylai'r math hwnnw o gyhoeddiad gael ei eithrio o'r safon gyffredinol.

7. Adran 111, Mesur y Gymraeg

Nid yw'r rhyddid o dan Adran 111 a'r ddyletswydd ar bersonau o dan y safonau yn gysylltiedig o gwbl. Mae'r math/categori o berson a all ddefnyddio Adran 111 a'r prawf/y broses o adolygiad gan y Comisiynydd o'r ddwy ran yn gwbl wahanol. Nid oes rhaid i bersonau sy'n cydymffurfio â safonau ystyried adran 111 wrth ddehongli neu ddarparu ystyr y safonau. Byddai'n anghywir gwneud hynny. Os nad yw person yn ddarostyngedig i safonau gweithredu nid yw hyn yn effeithio ar ryddid unigolyn i o fewn y sefydliad hwnnw ddefnyddio'r Gymraeg.

Ni ddylai'r safonau gyfeirio at y rhyddid yn Adran 111 gan y byddai cyfeiriad o'r fath yn amlygu cysylltiad nad yw'n bodoli.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

8. Canllawiau Drafft Ynghylch Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith

Mae'r Canllawiau Drafft Ynghylch Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith ("y Canllawiau") wedi eu gosod ynglŷn â ffurf a chynnwys cynlluniau iaith o dan Ran II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae effaith gyfreithiol y Canllawiau felly wedi ei gyfyngu i gynlluniau iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf"). Mae adran 5(3) y Ddeddf yn mynnu bod corff cyhoeddus yn rhoi sylw i'r Canllawiau wrth baratoi ei gynllun iaith. Gan fod dyletswydd i baratoi a chydymffurfio â safonau yn deillio o ddeddfwriaeth wahanol (h.y. y Mesur ac nid y Ddeddf) nid oes unrhyw statws ffurfiol cyfreithiol i'r canllawiau wrth ddehongli pwrpas a chynnwys y safonau.

Er hyn, roedd y Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig yn datgan:

"2.10 Bwriedir i'r darpariaethau a nodir yn y Mesur arfaethedig foderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau a grëwyd o dan Ddeddf 1993."...

"3.18 Bwriad polisi y Mesur arfaethedig yw sefydlu rhaglen dreigl er mwyn i system o safonau gymryd lle'r cynlluniau. Wrth i gyrff a sectorau ddechrau dod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau o dan y Mesur, ni fydd darpariaethau Deddf 1993 ynghylch cynlluniau bellach yn gymwys iddynt. Wedi i'r safonau gael eu gosod ar yr ystod gyfan o gyrff sy'n gweithredu cynlluniau ar hyn o bryd, caiff y rhan honno o Ddeddf 1993 sy'n delio â chynlluniau ei diddymu'n llwyr."

Mae'n amlwg bod rhaid i gynnwys y safonau o leiaf adlewyrchu ac, os yn bosib, adeiladu ar y system o gynlluniau.

Gan mai'r Canllawiau yw'r brif ddogfen statudol ar gynnwys y cynlluniau iaith, dylai'r safonau gyfateb i gynnwys mesurau a gynhwysir yn y canllawiau. Os nad ydynt, bydd risg fod y safonau wedi methu cyflawni pwrpas y Mesur a'u bod yn agored i adolygiad barnwrol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Atodiad 2

Sylwadau golygyddol cyffredinol

Cydnabyddir mai dogfennau drafft a gyflwynwyd ac nad oeddent o'r herwydd wedi eu golygu na'u prawf ddarllen yn fanwl. Bydd gofyn, wrth gwrs, i chi olygu'r ddwy iaith yn fanwl cyn eu cyhoeddi gan y sylwyd ar anghysonderau arddull rhwng y gwahanol ddosbarthau o safon ac weithiau o fewn i'r un safon.

Mae yna hefyd fanion golygyddol y bydd gofyn i chi fynd i'r afael â nhw yn y ddwy iaith cyn cyhoeddi'r safonau terfynol, wrth gwrs, megis anghysonderau yn arddulliau'r amryw restrau a gwallau atalnodi.

Sylwyd hefyd ar wallau ieithyddol megis gwallau sillafu a llithriadau teipio (yn y ddwy iaith); gwallau treiglo; camgymeriadau cystrawennol; a diffyg cysondeb o safbwynt dewis cenedl yn y Gymraeg. Cydnabyddir mai mân lithriadau yw'r rhain a'u bod yn aml yn gywir mewn rhannau eraill o'r un ddogfen.

Dylid hefyd brawf ddarllen y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn sicrhau bod yr ystyr yn cael ei gyfleu'n gyson ac yn llawn yn y ddwy iaith. Mae yna enghreifftiau ar hyn o bryd o gam-gyfieithu neu fod amser y ferf yn wahanol yn y ddwy iaith (e.e. Safon Hybu 2: nid yw currently yn gyfystyr ag 'ar y pryd').

Dylid rhoi sylw penodol i'r derminoleg a fabwysiedir a sicrhau eich bod yn defnyddio terminoleg safonol: credwn, er enghraifft y byddai 'dewislen' yn derm mwy priodol na 'bwydlen'.

1. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Cyfeirnod	Sylw
Llai ffafriol	Os am egluro ystyr 'llai ffafriol' mewn cysylltiad a ffurf weledol rhwng yr iaith Gymraeg a'r Saesneg awgrymir y gellid cwmpasu'r elfennau canlynol:- • maint • ansawdd • eglurder • amlygrwydd Wrth gyfeirio at amseroedd ymateb; codi tâl am wasanaeth a phan yn dosbarthu deunydd gweledol dyweder gellid sefydlu cysondeb drwy gyfeirio at y canlynol:- • amseroedd cyflenwi • pris • ymddangosiad deunydd Gweler hefyd y cyngor ar faterion cyfreithiol yn atodiad 1.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Tudalen 3 Safon Gohebiaeth	Fersiwn Gymraeg o ohebiaeth. Newid i 'llythyr' ar y sail nad oes llofnod i bob ffurf o ohebu erbyn hyn e.e. drwy'r cyfryngau cymdeithasol
Tudalen 3 a 4 Safonau 8 - 11	Mae'r ymrwymiad yr un fath ond y lleoliad ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad ym amrywio. Awgrymu cyfuno i un safon
Tudalen 5 Safon 18	Nid yw ystyr y safon yn glir fel ag y saif. Beth yw ystyr 'gwasanaeth cyswllt cyntaf'?
Tudalen 5 Safonau 21 a 22	Awgrymir y gellid cyfuno'r 2 safon yma
Tudalen 6 Safon 25 - 28	Nid yw ystyr 'yn weithredol' yn glir. Mae'r safonau hyn yn rhai problematig felly. Os nad yw ystyr yr ymrwymiad iaith yn glir ni all y sefydliad ddeall beth yw'r disgwyliad ac ni all y Comisiynydd arfer ei swyddogaethau.
Tudalen 6 Safon 26 - 28	Pum, pedair a thair awr. Nid oes angen y dewisiadau gan y byddai'n anodd dod i farn ar sail ystyriaethau ymarferol yn y cyswllt hwn. Hyd yn oed wedi addasu'r safonau nid yw'r ymrwymiad iaith yn glir yn y safonau hyn.
Tudalen 7 Safonau 38 a 39	Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dweud nad yw o blaid defnyddio lefelau. Os yw Llywodraeth Cymru yn parhau i ddewis gwneud hynny yna mae'n rhaid cael safonau sy'n adlewyrchiad o'r <u>canolraddol</u> yn ogystal â'r uchafswm neu'r isafswm. Ychwanegu safon rhwng 38 a 39 yn dweud y caiff cyfarfod ei gynnal yn Gymraeg o fewn cyfnod penodedig. Mewn rhai amgylchiadau ni fydd cyfieithu ar y pryd yn briodol i gyfarfodydd personol ac felly mae gofyn cynnwys safon sy'n caniatáu cynnal cyfarfod cyfrwng y Gymraeg ond o fewn amserlen sy'n caniatáu gwneud trefniadau arbennig ar gyfer cynnal cyfarfod o'r fath. Ydy safon rhif 38 yn golygu fod yn rhaid i rywun ddweud eu bod am siarad Cymraeg bob tro? Beth yw ystyr 'wedi dweud' yn safon rhif 38?



	Mae sylw gan y Llywodraeth ei hun ar safon 43 yn nodi na chaniateir disgresiwn i benderfynu ar gyfieithu ar y pryd neu olynol felly pam ei fod yn cael ei ganiatáu yma?
Tudalen 8 Safon 6 A	Yn y sylwadau nid oes angen y frawddeg olaf sef 'ni fyddai disgwyl i unigolion fod yn bresennol os na chawsant eu gwahodd i'w cyfarfod'
Tudalen 9 Safon 47 Safon 55	Nid oes angen y gair 'gwasanaeth'. Nid yw wedi ei ddefnyddio yn y safonau blaenorol. Nid yw safon 55 yn gwneud synnwyr lle dywedir ' neu os cafodd ei ddrafftio yn Gymraeg'
Tudalen 12 Safon 57	Pam nad yw'r safon yn dilyn yr un egwyddor a safon rhif 55 sef bod modd ddod i farn ar sail dau faen prawf? Mae absenoldeb ymrwymiad yn y cyswllt hwn sef nad oes disgwyl sicrhau mynediad na hygyrchedd at ffurflenni Cymraeg. Mae'n ymddangos fod ymrwymiad y safon sy'n ymwneud gyda ffurflenni yn anghyflawn.
Tudalen 13 Safonau yn ymwneud gyda gwefannau	Nid yw'r safonau yn mynd i'r afael â strwythur gwefan e.e. nid oes cyfeiriad at wybodaeth haen gyntaf/ail haen yn Gymraeg. Nid yw ystyr 'tudalen' yn glir.
Tudalen 13 Safon 63	'Arwydd newydd a rhai sy'n cael eu hadnewyddu'. Diwygier gyda 'arwyddion parhaol a dros dro' Arwydd o fewn ffiniau eiddo neu y mae sefydliad yn berchen arno hefyd?
Tudalen 14 Safon 67 Safon 70 Safon 77 ac 80 Tudalen 16 90 Safon 91 - 95	Beth yw ystyr 'derbynfa' Gweler sylwadau ar safon 58 Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. Onid oes ymrwymadau eraill cysylltiedig? Beth yw ystyr galwadau ffôn ? Onid yw'r safon yn anymarferol? Ystyr yn annelwig 'yn Gymraeg' beth yn union y cyfeiria 'yn Gymraeg' ato? Ydy'r gweithiwr yn gorfod siarad Cymraeg wrth ofyn y cwestiwn ynteu ydy'r swyddog yn gofyn pa iaith yw dewis iaith y sawl sy'n galw, neu'r ddau? Mae gofyn i'r ymrwymiad fod yn glir.



Safon 105 a 106	Mae'r geiriad yn glogyrnaidd a oes modd ail ddrafftio rhywfaint?
Cyfeirnod	Sylw
Llai ffafriol	Os am egluro ystyr 'llai ffafriol' mewn cysylltiad a ffurf weledol rhwng yr iaith Gymraeg a'r Saesneg awgrymir y gellid cwmparu'r elfennau canlynol:- • maint • ansawdd • eglurder • amlygrwydd Wrth gyfeirio at amseroedd ymateb; codi tâl am wasanaeth a phan yn dosbarthu deunydd gweledol dyweder gellid sefydlu cysondeb drwy gyfeirio at y canlynol:- • amseroedd cyflenwi • pris • ymddangosiad deunydd Gweler hefyd y cyngor ar faterion cyfreithiol yn atodiad 1.
Tudalen 3	Fersiwn Gymraeg o ohebiaeth. Newid i 'llythyr' ar y sail nad oes llofnod i bob ffurf o ohebu erbyn hyn e.e. drwy'r cyfryngau cymdeithasol
Safon Gohebiaeth	
Tudalen 3 a 4 Safonau 8 - 11	Mae'r ymrwymiad yr un fath ond y lleoliad ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad ym amrywio. Awgrymu cyfuno i un safon
Tudalen 5	Nid yw ystyr y safon yn glir fel ag y saif. Beth yw ystyr 'gwasanaeth cyswllt cyntaf'?
Safon 18	
Tudalen 5	Awgrymir y gellid cyfuno'r 2 safon yma
Safonau 21 a 22	
Tudalen 6	Nid yw ystyr 'yn weithredol' yn glir. Mae'r safonau hyn yn rhai problematig felly. Os nad yw ystyr yr ymrwymiad iaith yn glir ni all y sefydliad ddeall beth yw'r disgwyliad ac ni all y Comisiynydd arfer ei swyddogaethau.
Safon 25 - 28	



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Tudalen 6 Safon 26 - 28	Pum, pedair a thair awr. Nid oes angen y dewisiadau gan y byddai'n anodd dod i farn ar sail ystyriaethau ymarferol yn y cyswllt hwn. Hyd yn oed wedi addasu'r safonau nid yw'r ymrwymiad iaith yn glir yn y safonau hyn.
Tudalen 7 Safonau 38 a 39	Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dweud nad yw o blaid defnyddio lefelau. Os yw Llywodraeth Cymru yn parhau i ddewis gwneud hynny yna mae'n rhaid cael safonau sy'n adlewyrchiad o'r <u>canolraddol</u> yn ogystal â'r uchafswm neu'r isafswm. Ychwanegu safon rhwng 38 a 39 yn dweud y caiff cyfarfod ei gynnal yn Gymraeg o fewn cyfnod penodedig. Mewn rhai amgylchiadau ni fydd cyfieithu ar y pryd yn briodol i gyfarfodydd personol ac felly mae gofyn cynnwys safon sy'n caniatáu cynnal cyfarfod cyfrwng y Gymraeg ond o fewn amserlen sy'n caniatáu gwneud trefniadau arbennig ar gyfer cynnal cyfarfod o'r fath. Ydy safon rhif 38 yn golygu fod yn rhaid i rywun ddweud eu bod am siarad Cymraeg bob tro? Beth yw ystyr 'wedi dweud' yn safon rhif 38? Mae sylw gan y Llywodraeth ei hun ar safon 43 yn nodi na chaniateir disgresiwn i benderfynu ar gyfieithu ar y pryd neu olynol felly pam ei fod yn cael ei ganiatáu yma?
Tudalen 8 Safon 6 A	Yn y sylwadau nid oes angen y frawddeg olaf sef 'ni fyddai disgwyl i unigolion fod yn bresennol os na chawsant eu gwahodd i'w cyfarfod'
Tudalen 9 Safon 47	Nid oes angen y gair 'gwasanaeth'. Nid yw wedi ei ddefnyddio yn y safonau blaenorol.
Safon 55	Nid yw safon 55 yn gwneud synnwyr lle dywedir ' neu os cafodd ei ddrafftio yn Gymraeg'
Tudalen 12 Safon 57	Pam nad yw'r safon yn dilyn yr un egwyddor a safon rhif 55 sef bod modd ddod i farn ar sail dau faen prawf? Mae absenoldeb ymrwymiad yn y cyswllt hwn sef nad oes disgwyl sicrhau mynediad na hygyrchedd at ffurflenni Cymraeg. Mae'n ymddangos fod ymrwymiad y safon sy'n ymwneud gyda ffurflenni yn anghyflawn.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Tudalen 13 Safonau yn ymwneud gyda gwefannau	Nid yw'r safonau yn mynd i'r afael â strwythur gwefan e.e. nid oes cyfeiriad at wybodaeth haen gyntaf/ail haen yn Gymraeg. Nid yw ystyr 'tudalen' yn glir.
Tudalen 13 Safon 63	'Arwydd newydd a rhai sy'n cael eu hadnewyddu'. Diwygier gyda 'arwyddion parhaol a dros dro' Arwydd o fewn ffiniau eiddo neu y mae sefydliad yn berchen arno hefyd?
Tudalen 14 Safon 67	Beth yw ystyr 'derbynfa'
Safon 70	Gweler sylwadau ar safon 58
Safon 77 ac 80	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. Onid oes ymrwymadau eraill cysylltiedig?
Tudalen 16 90	Beth yw ystyr galwadau ffôn ? Onid yw'r safon yn anymarferol?
Safon 91 - 95	Ystyr yn annelwig 'yn Gymraeg' beth yn union y cyfeiria 'yn Gymraeg' ato? Ydy'r gweithiwr yn gorfod siarad Cymraeg wrth ofyn y cwestiwn ynteu ydy'r swyddog yn gofyn pa iaith yw dewis iaith y sawl sy'n galw, neu'r ddau? Mae gofyn i'r ymrwymiad fod yn glir.
Safon 105 a 106	Mae'r geiriad yn glogyrnaidd a oes modd ail ddrafftio rhywfaint?

2. Safonau Llunio Polisi

Cyfeirnod	Sylw
Safonau 4,7,9	Y Gymraeg a'r Saesneg heb fod yr un fath 'for other persons'
Safonau 1 -3 a 8 - 9	'Pobl'
Safonau 4, 5, 6, 7	'Pobl eraill'
Absenoldeb safonau	Ble mae'r safonau llunio polisi sy'n ymhél gyda chontractau?



3. Safonau Gweithredu

Cyfeirnod	Sylw
Tudalen 2 Safonau 1, 3 - 6	'wedi nodi' 'yn dymuno' sut mae'r sefydliad yn adnabod y dymuniad? Sut mae aelod o staff yn 'nodi'?
Safon 5 a 6	Awgrymu fod angen safon yn y canol rhwng 5 a 6 sef cynnal cyfarfod yn Gymraeg ond y byddai'n cymryd ychydig o amser i drefnu ar ei gyfer.
Safon 8	'yn' ar goll
Safon 9	Ystyr?
Safon 11	Priodoldeb y gair 'caffael' Galwedigaethol yn air cwmpasog ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith. Pam cynnwys rhestr oherwydd gall fod yn anaddas. Onid yw gofynion hyfforddi sefydliadau'n amrywio yn ogystal a blaenoriaethau yn y cyswllt hwn? Beth am ôl ofalaeth hyfforddiant?
Tudalen 5 Safon 14	Angen ychwanegu bwled yn nodi y croesewir defnyddio'r Gymraeg yn y man gwaith.
Safon 16	Dylai'r Llywodraeth wneud gwaith cefndir ar ganfyddiadau ymchwil sy'n gysylltiedig a'r bathodyn Iaith Gwaith cyn mynd rhagddi i amrywio pwrpas y bathodyn.
Safon 17	Beth os yw aelod o staff yn gwrthwynebu gwisgo breichled?
Safonau absennol am recriwtio	(i) safon yn nodi fod angen digon o staff a chanddynt sgiliau priodol yn y Gymraeg er mwyn cydymffurfio a safonau (ii) Clustnodi swyddi lle ystyrir fod y Gymraeg yn hanfodol a lle ystyrir bod y Gymraeg yn ddymunol...
Safon (11)	A ddylid sicrhau cysondeb â (safon 7) drwy eirio hwn yn 'paratoi a gweithredu'. Hynny yn ymddangos yn gryfach na 'mabwysiadu'.
Safon 19	Hyn ddim yn weithredadwy. Angen detholiad. Oes angen hyn o gwbl yn y safonau gweithredu? Onid yw yn y cyflenwi gwasanaethau eisoes?
Absenoldeb safon	Neb yn cario'r swyddogaeth o fod yn gyfrifol am sicrhau fod y sefydliad yn gweithredu yn unol a'r safonau - Arweiniad a chanllawiau etc. Cynllunio mewn modd strwythuredig - Ystyried yr adnoddau a chyfleuster sydd ei angen - Arolygu ac adrodd



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

4. Safonau Hybu

Cyfeirnod	Sylw
Safon 1 - 2	Mae 'ystyried' yn air gwan ac yn anodd ei fesur. Beth am 'asesu a defnyddio gwybodaeth'.
Safon 1	Os mai sefyllfa ddemograffig yn unig sy'n berthnasol mae'n allgau llefydd lle ceir twf mewn addysg etc.
Safon 2	'ar y pryd'?
Safon 4	Elfen weithredol ar goll. Dylai fod yn gysylltiedig â'r cynllun integredig gaiff ei weithredu gan awdurdodau lleol etc. Angen targedau neu debyg...Angen adrodd yn flynyddol neu debyg....
Cynnig newydd	Angen safon yn ystyried cyfle i hybu'r Gymraeg yn ehangach mewn strategaethau eraill – prif ffrydio.

5. Safonau Cadw Cofnodion

Cyfeirnod	Sylw
Safon 1	Dim ond cynnwys atodlen 9 sydd wedi ei restru. Mae safonau cyflenwi gwasanaeth yn cynnwys rhagor o ddewisiadau nag atodlen 9. Pam na chynhwyswyd rheiny yn y rhestr?
Safonau 5 - 8	Safonau yn ymwneud â chwynion. Mae angen dweud y dylai sefydliad ddyddio a rhifo yr holl gwynion mae'n eu derbyn mewn perthynas â safonau'r Gymraeg mewn modd sy'n dangos sut cafodd y cofnod ei ddiweddarau. Hefyd mae angen pennu cyfnod ar gyfer cadw'r cofnodion e.e. 6 mlynedd. Diffinio fel y Mesur.
Abseoldeb safonau	Casglu data am sgiliau iaith staff gan gynnwys swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol O'r swyddi uchod, y rhai a lenwyd gan staff dwyieithog.